Defnyddio Geiriadur

☆ Mae **GEIRIADUR** ar gael er mwyn:

- **SILLAFU'N** gywir
- Cael gwybod y **GAIR CYMRAEG**
- Cael gwybod **YSTYR GAIR**
- Cael gwybod beth ydy'r ffurf **LUOSOG**
- Cael gwybod y **TERM GRAMADEGOL** am air
- Cael gwybod ai enw **BENYWAIDD** neu enw **GWRYWAIDD** ydy gair

YR WYDDOR

a	**b**	**c**	**ch**	**d**	**dd**	**e**	**f**	**ff**
g	**ng**	**h**	**i**	**l**	**ll**	**m**	**n**	**o**
p	**ph**	**r**	**rh**	**s**	**t**	**th**	**u**	**w**
y							(28)	

LLAFARIAID

a e i o u w y

CYTSEINIAID

Pob llythyren arall

☆ LLUOSOG GEIRIAU (lluosog = mwy nag un)

Edrychwch ar y llythrennau mewn print trwm / neu mewn cromfachau a ddaw ar ôl y gair.

e.e.	baban	- **od**	=	babanod
	afal	- (**au**)	=	afalau
	dafad	- (**defaid**)	=	defaid

(y gair yn newid i gyd)

☆ Geiriau yn TREIGLO

Rhaid meddwl sut oedd y gair i ddechrau:

e.e.	**dad**	→	dod o **tad**
	mrawd	→	dod o **brawd**
	ngwallt	→	dod o **gwallt**
	nhrwyn	→	dod o **trwyn**

GWELER TABL TREIGLO AR DUDALEN 20!

Llythyren i ddechrau	Gallu newid i:
p	b, mh, ph
t	d, nh, th
c	g, ngh, ch
b	f, m
d	dd, n
g	ng, g yn mynd ar goll
ll	l
rh	r
m	f